

## Llamu Ymlaen – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3010A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gweithio'n frwd ar ei brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol ac yn datblygu'r weledigaeth a chynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach i'r dyfodol yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor i'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Asedau 8

Mae'r Cyngor yn parhau i roi ei brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol ar waith ond nid yw eto wedi datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer ei asedau na'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig sy'n llunio dyfodol ei asedau tir ac adeiladau 8

Mae gan y Cyngor enghreifftiau rhagweithiol o reoli ac ailbwrpasu asedau er bod cyfleoedd i fod yn fwy cyson ar draws y gwasanaethau o fewn gweledigaeth gorfforaethol 9

Bydd diffinio ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau'n cryfhau gallu'r Cyngor i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau 10

Y gweithlu 10

Mae'r Cyngor wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer ei weithlu er nad yw hon yn gyflawn 10

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr fel rhan o'i brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol, ac mae angen iddo datblygu cynlluniau tymor hwy ar gyfer y gweithlu, gan adlewyrchu ei brofiad yn ystod y pandemig, i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy rhagweithiol 11

Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg ar faterion cyfredol sy'n ymwneud â'r gweithlu ond mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o ddata a defnyddio gwybodaeth feincnodi i fesur llwyddiant cyfredol a thymor hwy ei fentrau o ran y gweithlu 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, fe wnaeth yr adolygiad hwn ystyried sut y mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.
- 2 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu:
  - a. ar gyfer asedau, roedd ein prif ffocws ar swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei drigolion; a
  - b. ar gyfer y gweithlu, bu ein ffocws ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion hirsefydlog o ran y gweithlu.

Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol ar gyfer defnyddio'i asedau a'i weithlu, sut y mae'n monitro'r defnydd ohonynt a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

- 3 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.
- 4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:
  - cael sicrwydd bod y Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
  - egluro'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unigol ac mewn partneriaeth i gryfhau ei drefniadau yn ogystal â gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
  - ysbrydoli'r Cyngor a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.
- 5 Mae hyn yn bwysig am bod Cyngor Gwynedd yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei asedau adeiladau a'i weithlu. Dangosir peth gwybodaeth allweddol o 2020-21 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: ffeithiau a ffigyrau allweddol sy'n ymwneud ag asedau adeiladau a'r gweithlu.**

Nifer yr adeiladau yr oedd y Cyngor yn berchen arnynt yn 2020-21	965 o adeiladau
Gwerth eiddo, ar 31 Mawrth 2021	Oddeutu £311 miliwn
Nifer yr aelodau o staff	5,849
Gwariant ar y gweithlu	£149 miliwn sy'n cyfateb i 39% o Wariant Gros y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol
Canran y gweithlu, y staff a oedd yn wrywod	28.2%
Canran y gweithlu, y staff a oedd yn fenywod	71.8%
Canran y staff sy'n gweithio'n llawn-amser	52.5%
Canran y staff sy'n gweithio'n rhan-amser	47.5%
Canran y staff dros 55 oed	24.2%
Nifer yr aelodau o staff a adawodd y Cyngor o'u dewis eu hunain yn 2020-21	400

- 6 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y galw am adeiladau a'r ffordd y mae staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhai o'r effeithiau hyn a'r ffordd y mae'r Cyngor yn cael budd o'r effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru risgiau o'r effeithiau negyddol wrth gynllunio i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

- 7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022.

## Yr hyn a ganfuom

- 8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid? Wrth wneud y gwaith hwn rydym wedi adnabod rhywfaint o effaith uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion gweithredol a materion o ran llywodraethu a waethygyd gan y pandemig.
- 9 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor yn gweithio'n frwd ar ei brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol ac yn datblygu'r weledigaeth a chynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach i'r dyfodol yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor i'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 10 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- mae'r Cyngor yn parhau i roi ei brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol ar waith ond nid yw eto wedi datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer ei asedau na'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig sy'n llunio dyfodol ei asedau tir ac adeiladau;
  - mae gan y Cyngor enghreifftiau rhagweithiol o reoli ac ailwrpasu asedau er bod cyfleoedd i fod yn fwy cyson ar draws y gwasanaethau o fewn gweledigaeth gorfforaethol;
  - bydd diffinio ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau'n cryfhau gallu'r Cyngor i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau;
  - mae'r Cyngor wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer ei weithlu er nad yw hon yn gyflawn;
  - mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr fel rhan o'i brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol, ac mae angen iddo datblygu cynlluniau tymor hwy ar gyfer y gweithlu, gan adlewyrchu ei brofiad yn ystod y pandemig, i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy rhagweithiol; and
  - mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg ar faterion cyfredol sy'n ymwneud â'r gweithlu ond mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o ddata a defnyddio gwybodaeth feincnodi i fesur llwyddiant cyfredol a thymor hwy ei fentrau o ran y gweithlu.

## Argymhellion

### Arddangosyn 2: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

#### Argymhellion

##### Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

- A1 Mae angen i'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan adeiladu ar y profiad o'r pandemig, wrth iddo:
- ddatblygu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer trefn a maint ei asedau tir ac adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, canolig a hir;
  - datblygu strategaethau ar gyfer asedau a'r gweithlu; a
  - datblygu cynlluniau cyflawni wedi'u costio.

##### Data a Meincnodi

- A2 Datblygu'r defnydd o ddata a meincnodi i lywio prosesau cynllunio, pennu'r gyllideb a mesur llwyddiant tymor hwy ei fentrau ar gyfer asedau a'r gweithlu.

# Adroddiad manwl

## Asedau

### **Mae'r Cyngor yn gweithio'n frwd ar ei brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol ac yn datblygu'r weledigaeth a chynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach i'r dyfodol yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor i'r egwyddor datblygu cynaliadwy**

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae prosiect y Cyngor, 'Gweithio i'r Dyfodol', yn dangos ymrwymiad i fodel gweithio newydd a fydd yn newid y ffordd y defnyddir swyddfeydd. Mae'r Cyngor o'r farn bod ansicrwydd ynghylch beth fydd yr anghenion o ran gweithleoedd yn y dyfodol a bod angen rhagor o amser i adlewyrchu.
- mae rheolwr prosiect wedi cael ei benodi i arwain yr adolygiad o anghenion am swyddfeydd ac adeiladau yn y dyfodol, ac mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i adolygu'r system ffonau desg gyfredol gyda golwg ar roi ffonau mwy hyblyg sy'n seiliedig ar gyfrifiaduron ar waith i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr erbyn diwedd 2022.
- mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ffafrio gostyngiad yn niferoedd y desgiau a mabwysiadau trefniadau lle mae unigolion yn gweithio wrth sawl gweithfan. Mae lleoedd gweithio hybrid yn cael eu treialu mewn rhai adeiniau i ddangos i staff sut y gall gweithfannau hybrid edrych yn y dyfodol. Nod tymor hwy fydd pontio'n llwyr i weithfannau hybrid o'r fath.
- nid yw'r prosiect 'Gweithio i'r Dyfodol' wedi nodi gweledigaeth ddatganedig nac wedi datblygu'r cynlluniau cyflawni sy'n cyd-fynd â'r prosiect. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn dweud mai dyheadau'r Cyngor yw bod yn gyngor modern, sy'n rhoi'r cyfle i staff weithio'n hyblyg, gan weithio ble bynnag sydd fwyaf addas i gynyddu i'r eithaf y defnydd o dechnoleg a gweithio'n effeithlon.
- er bod trefniadau hybrid newydd yn cael eu treialu mewn rhai adrannau ar hyn o bryd, nid yw'r weledigaeth a chynlluniau corfforaethol sy'n disgrifio'r defnydd o le mewn swyddfeydd yn y dyfodol wedi cael eu ffurfioli a'u cymeradwyo. Dylai Cynghorau fod yn ymwybodol o'r ffaith y gallai newid bob yn dipyn, heb weledigaeth gymeradwy, fynd ag hwy yn y cyfeiriad anghywir. Hefyd, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'r gwersi a ddysgir o'r broses dreialu a'i fod yn defnyddio'r gwersi hyn i lywio'r cyfeiriad tymor hwy.
- mae'r Cyngor yn ymgynghori â thrigolion ym mhob un o 13 o ardaloedd llesiant yr awdurdod i hysbysu'r asesiad llesiant a chreu cynlluniau adfywio lleol. Bydd cynlluniau adfywio'n adlewyrchu anghenion cymunedau unigol ac yn darparu cyfeiriad. Mae'r Cyngor yn glir bod gan yr asesiadau lleol y potensial i oleuo dull rheoli asedau hirdymor trawsnewidiol.



- ceir cyfleoedd pellach lle gall y Cyngor sicrhau bod strategaethau a chynlluniau allweddol wedi'u halinio a'u hintegreiddio, er enghraifft:
  - nid yw Cynllun Cyngor Gwynedd, fel y'i diwygiwyd yn 2022-23, yn nodi'r ymrwymiad i foderneiddio'r ffyrdd o weithio nac yn cydnabod y prosiect 'Gweithio i'r Dyfodol'.
  - mae'r Cynllun Asedau cyfredol 2019-2029 yn rhestr wedi'i blaenoriaethu o brosiectau cyfalaf gan bob adran ar gyfer y cyfnod o ddeng mlynedd. Nid yw'n cael ei lywio gan weledigaeth benodol nac yn nodi sefyllfa derfynol a ddymunir ar gyfer sylfaen asedau'r Cyngor.
  - nid yw gwasanaethau wedi nodi eu hanghenion cyfredol a thymor hwy o ran asedau, ac nid yw'r gost ariannol yn hysbys.
  - mae angen i strategaethau fel Cynllun Argyfwng yr Hinsawdd a Natur 2022-23 – 2029-30 ac Egwyddorion System Addysg Addas i Bwrpas gael eu datblygu a'u costio i ategu'r weledigaeth a chynllun corfforaethol ar gyfer asedau.
  - ar ddechrau'r pandemig, roedd peth o seilwaith y Cyngor, megis defnydd parhaus o gyfrifiaduron desg, yn draddodiadol iawn ac yn anghydnaws â'i ddyhead i fod yn gyngor modern.
- mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus fod â dealltwriaeth dda am anghenion yn y dyfodol. Mae angen i'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w weledigaeth a chynlluniau ategol corfforaethol ar gyfer asedau i'w helpu i gyflawni ei ddyheadau ar gyfer y gweithlu a darparu gwasanaethau, yn awr ac yn y dyfodol. Dylai hyn helpu i sicrhau bod ei asedau'n cael yr effaith fwyaf bosibl, ar draws ystod o'i amcanion.

## **Mae gan y Cyngor enghreifftiau rhagweithiol o reoli ac ailbwrpasu asedau er bod cyfleoedd i fod yn fwy cyson ar draws y gwasanaethau o fewn gweledigaeth gorfforaethol**

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae defnyddio technoleg wedi symud rhai gwasanaethau i ffwrdd oddi wrth amgylchedd swyddfeydd traddodiadol a fydd yn arwain at leihad yn y galw am le swyddfa mewn canolfannau gweinyddol hanesyddol.
- mae'r pandemig wedi helpu i symud rhai agendâu yn eu blaenau'n gyflymach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gartref, cyfarfodydd rhithwir, a llai o deithio. Er y bu ar y Cyngor eisiau newid ei ffordd o weithio, nid oedd wedi adnabod yr angen i adnewyddu elfennau allweddol o seilwaith.
- mae'r pandemig wedi darparu rhai cyfleoedd i'r Cyngor gynnig ei asedau i gyrrff cyhoeddus eraill, megis darparu canolfannau hamdden ar gyfer y rhaglen i ddarparu brechiadau atgyfnerthu.

- mae'r Cyngor yn mynd ati'n frwd i geisio cyfleoedd i ailbwrpasu safleoedd a ddatgomiwyd i ddarparu defnyddiau newydd megis llety ar gyfer pobl ddigartref a datblygiadau tai newydd.
- mae'r Adran Tai ac Eiddo wedi datblygu mesurau ataliol o fewn y gwasanaethau digartrefedd a llety â chymorth arbenigol. Nod y llety arbenigol yw darparu ar gyfer mwy na'r anghenion tai trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau a wynebir gan unigolion agored i niwed. Mae'n amcanu at ddwyn manteision gwirioneddol, gan gynnig gwerth ychwanegol o ran lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus.
- er bod yr uchod yn enghraifft dda o'r Cyngor yn cyflawni prosiectau ataliol integredig, nid yw'n ymddangos bod enghreifftiau'n dod i'r amlwg mor aml ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn symptomatig o'r ffaith nad yw'r pum ffordd o weithio wedi'u gwreiddio ym mhopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud.

## **Bydd diffinio ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau'n cryfhau gallu'r Cyngor i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau**

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth am y modd y bydd y defnydd o asedau'n newid yn y dyfodol, ond nid yw'n bwriadu cynnal adolygiad cyflawn tan ddiwedd y pandemig.
- nid yw'r Cyngor wedi nodi beth y mae arno eisiau ei gyflawni dros y tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau, ac nid yw'n adolygu'r cynnydd dros y tymor canolig na hwy.
- nid yw'r Cyngor yn defnyddio meincnodi mewn modd gweithredol fel rhan o'i ddull i ddeall ei berfformiad ei hun yn well ac adnabod meysydd ar gyfer gwella.

## **Y Gweithlu**

### **Mae'r Cyngor wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer ei weithlu er nad yw hon yn gyflawn**

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom fel a ganlyn:

- mabwysiadodd y Cabinet weledigaeth ym mis Chwefror 2022: 'Cyngor sy'n cefnogi'r gweithlu, yn ei rymuso ac yn ymddiried ynddo i weithio'n hyblyg ac yn gynhyrchiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da, mewn ffordd sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn sylweddol.

Adeiladu ar y ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, trwy roi hyblygrwydd i staff weithio'n hyblyg a defnyddio technoleg i weithio a chyfathrebu'n rhithwir.'

- er bod Cynllun y Cyngor yn nodi bod 'rhaid i ni sicrhau bod gennym y staff iawn sydd â'r sgiliau iawn', nid yw'r weledigaeth a fabwysiadwyd yn cyfeirio at sicrhau bod gan y Cyngor y bobl iawn, yn y lle iawn nac am y gost iawn.
- mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad eglur i 'Gynllunio'r Gweithlu' sydd wedi'i gynnwys yn y flaenoriaeth gwella 'Gwneud pobl Gwynedd yn ganolog i bobeth a wnawn' yng Nghynllun y Cyngor, sy'n amcanu at:
  - estyn y Cynllun Prentisiaethau i gynnwys nifer uwch o brentisiaid;
  - rhoi'r Cynllun Datblygu Talent mewnol ar waith ar draws holl adrannau'r Cyngor;
  - parhau i gynnal ymgyrchoedd recriwtio lleol #GalwGofalwyr ledled y sir, yn ogystal â threialu syniadau a dulliau newydd i ddenu rhagor o ymgeiswyr;
  - cydweithio'n agos gyda thimau rheoli'r adrannau i gytuno ar drefniadau sefydledig a chanfod bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd a ragwelir dros y pump i ddeng mlynedd nesaf a chymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r rhain; a
  - bwrw golwg yn benodol ar y sefyllfa recriwtio ym meysydd gofal cymdeithasol i blant a gofal i oedolion, gan chwilio am ffyrdd i gynyddu capasiti a chydnerthedd ein gweithlu.
- fodd bynnag, ymddengys fod 'Cynllunio'r Gweithlu' yn canolbwyntio ar rai adrannau yn hytrach na phob un. Nid yw'n cyd-fynd yn llawn ag arfer gorau canfyddedig ar hyn o bryd o ran 'cynllunio'r gweithlu' gan ei fod yn canolbwyntio ar ddull adweithiol sy'n 'canfod a llenwi'r bylchau' yn hytrach na dull gweithredol i lunio'r gweithlu dros y tymor hwy. Byddai mynd ati'n weithredol i gynllunio'r gweithlu'n strategol yn cynorthwyo rheolwyr i weld yr hyn sydd ar ddod, yn hytrach na gweld ac ymdrin ag ef unwaith y mae wedi cyrraedd, ac mae angen buddsoddiad sylweddol i bontio'n llawn o ddull adweithiol i ddull rhagweithiol o reoli'r gweithlu.

**Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr fel rhan o'i brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol, ac mae angen iddo datblygu cynlluniau tymor hwy ar gyfer y gweithlu, gan adlewyrchu ei brofiad yn ystod y pandemig, i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy rhagweithiol**

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom fel a ganlyn:

- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr heriau cyfredol o ran y gweithlu sy'n cynnwys recriwtio a chadw staff mewn rolau niferus.

- mae rheolwyr y Cyngor wedi cael trafodaethau gyda 1,800 o aelodau o staff i gael dealltwriaeth am eu dymuniadau mewn perthynas â'u trefniadau gweithio i'r dyfodol:
  - dywedodd 59% y byddai'n well ganddynt drefniant gweithio hybrid;
  - roedd 25% yn dymuno gweithio gartref
  - roedd 15% yn dymuno gweithio mewn swyddfa.
- bu'r adran Adnoddau Dynol a'r Undebau Llafur yn cydweithio i roi cymorth i roi datblygiadau newydd ar waith ym maes iechyd a diogelwch.
- mae'r tîm Adnoddau Dynol wedi tyfu ei rwydweithiau o deulu llywodraeth leol yn bennaf i gynnwys ystod eang o gyflogwyr, gan gynnwys gwasanaethau lechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, i roi anogaeth i rannu arferion. Mae'r Cyngor hefyd yn cadeirio grŵp cenedlaethol sydd wedi bod yn helpu i ddatblygu canllawiau ac arfer da.
- mae gan y Cyngor nifer o fentrau, gan gynnwys Cynllun Prentisiaethau, Cynllun Yfory a Chynllun Datblygu Talent.
- nid yw'r adroddiad 'Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Gweithio i'r Dyfodol', a gyflwynwyd i Gabinet y Cyngor, yn disgrifio sut y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi ystyried y pum ffordd o weithio, fel a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- byddai meddwl mewn ffordd fwy integredig yn helpu'r Cyngor i greu'r cysylltiadau rhwng strategaethau perthnasol a sicrhau eu bod i gyd wedi'u cyfeirio tuag at gyflawni'r weledigaeth ar y cyfan a strategaethau sy'n llywio'r Cyngor cyfan yn yr un cyfeiriad.
- byddai gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i phum ffordd o weithio hefyd yn helpu'r Cyngor ymhlith eraill i:
  - ddatblygu perthnasoedd gweithio gwell â darparwyr eraill megis y trydydd sector;
  - gweithio ochr yn ochr â cholegau lleol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi yn y meysydd cywir a'u bod yn gyfarwydd â'r Cyngor fel darpar gyflogwr erbyn eu bod yn gorffen eu cymhwyster; a
  - chael mwy o fudd o gydweithio.

## **Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg ar faterion cyfredol sy'n ymwneud â'r gweithlu ond mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o ddata a defnyddio gwybodaeth feincnodi i fesur llwyddiant cyfredol a thymor hwy ei fentrau o ran y gweithlu**

16 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi datblygu dangosfwrdd COVID sy'n casglu gwybodaeth allweddol gan gynnwys cyfraddau salwch, swyddi sydd wedi cael eu hysbysebu dair gwaith; nifer y staff a adleolwyd, nifer y staff sydd wedi

profi'n bositif ar gyfer COVID, canran y staff sy'n absennol o'r gwaith (ar y cyfan ac oedolion), cyfradd waredu Cyfarpar Diogelwch Personol, i roi trosolwg i'r rheolwyr o fesurau allweddol.

- mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rheolwyr i weld a yw trefniadau gweithio hybrid a gweithio gartref yn gweithio i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau, gan gael dealltwriaeth am yr hyn sy'n gweithio, a'r hyn nad yw'n gweithio.
- ymddengys fod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gweithlu mewn rhai meysydd yn gyfyngedig, a byddai dealltwriaeth ehangach am destunau megis ymadawyr, llwyddiant prosesau recriwtio a thueddiadau o ran swyddi gwag yn sicrhau bod gan y Cyngor fesur o lwyddiant mentrau sy'n gysylltiedig â rheoli talent.
- nododd unigolion fod cymharu â chynghorau eraill yn anodd ac nad yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml. Mae angen goresgyn y rhwystrau hyn gan mai meincnodi effeithiol yw'r unig ffordd y gall y Cyngor fynd ati'n iawn i asesu ei berfformiad a'i helpu i ganfod cyfleoedd i gyflawni gwerth gwell.
- mae gan y Cyngor gyfle i adolygu trefniadau mewnol a rhanbarthol cyfredol i adnabod y rhai sy'n darparu gwerth ychwanegol, a meysydd lle mae angen gwelliant neu newidiadau. Fodd bynnag, i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol mae angen ystod lawn o ddata cyfredol nid dim ond am y gweithlu ond am y galwadau a osodir arno. Dim ond pan fo sefydliad wedi'i arfogi â'r wybodaeth hon y gall ddatblygu dull effeithiol o gynllunio'r gweithlu.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.